



Adroddiad Briffio Gweithdy 3

Thema'r Gweithdy: Adfywio iaith a thrawsnewid economaidd

Paratowyd gan Dr Elin Royles

Chwefror 2019



**THE UNIVERSITY
of EDINBURGH**



**Arts & Humanities
Research Council**

Gwefan: revitalise.aber.ac.uk

E-bost: revitalise@aber.ac.uk

Twitter: [@_revitalise](https://twitter.com/_revitalise)

Cynnwys

Crynodeb gweithredol

1. Cyflwyniad
2. Cysyniadoli dimensiynau gwahanol y cyswllt rhwng iaith ac economi
3. Traweffaith newidynnau iaith ar newidynnau economaidd
4. Traweffaith newidynnau economaidd ar fywiogrwydd iaith
5. Traweffaith anuniongyrchol trawsnewidiadau economaidd ar adfywio ieithoedd lleiafrifol

Atodiad: Rhaglen y gweithdy

Crynodeb gweithredol

- Mae'r papur hwn yn adrodd ar drydydd gweithdy'r prosiect Adfywio a gynhaliwyd yng Nghaerdydd, 5 Hydref 2018. Teitl y gweithdy oedd 'Adfywio iaith a Thrawsnewid Economaidd'. Ei nod oedd edrych yn fanwl ar ddimensiynau gwahanol y berthynas rhwng iaith ac economi yng nghyd-destun adfywio ieithoedd lleiafrifol. Nodir prif gasgliadau'r gweithdy isod.
- Er bod consensws eang ynghylch pa mor ganolog yw'r cyswllt iaith-economi i ymdrechion i adfywio iaith, y duedd gyffredinol yw i'r berthynas rhwng y ddwy gael ei thrafod mewn termau cymharol gyffredinol. Yn hytrach, mae angen gwahaniaethu'n gliriach rhwng elfennau'r berthynas iaith-economi (t. 4).
- Roedd trafodaethau'r gweithdy'n amlygu dimensiynau gwahanol y berthynas rhwng iaith ac economi (tt 4-6), yn benodol y modd y gall newidynnau iaith ddylanwadu ar newidynnau economaidd; y modd y gall newidynnau economaidd effeithio ar newidynnau ieithyddol; ac effaith anuniongyrchol ffactorau economaidd ar lefelau bywiogrwydd ieithyddol. Mae'r adroddiad briffio hwn yn nodi'r rhyngberthynas rhwng y dimensiynau hyn ond mae'n ceisio adnabod prif nodweddion pob un yn unigol. Mae'r papur yn galw am waith pellach ynglŷn â'r modd y caiff dimensiynau amlwg y berthynas hon rhwng iaith ac economi eu categoreiddio er mwyn asesu pa mor ddefnyddiol gallai fod; yn benodol a yw'n cynnig mwy o eglurder i ymarferwyr polisi sy'n ymhél â'r berthynas rhwng yr economi a ieithoedd lleiafrifol.
- Roedd y cyflwyniadau yn y gweithdai hefyd yn dangos y modd y gall teclynnau economeg iaith gynorthwyo gyda'r gwaith o ddadansoddi materion sy'n ymwneud â iaith, gan gynnwys y potensial i ddarparu sail wybodaeth i benderfyniadau ynghylch ymyraethau polisi (t. 6).
- Roedd yr ymdriniaeth o effaith newidynnau iaith ar newidynnau economaidd yn canolbwyntio'n benodol ar effaith economaidd ieithoedd lleiafrifol (tt. 6-7). Mae gwaith ymchwil yn yr Alban wedi awgrymu bod premiwm o ran Gaeleg yr Alban ym maes cyflogaeth a bu ymdrechion i feintioli gwerth economaidd yr iaith i economi'r Alban. Roedd trafodaethau ynghylch sefyllfa'r Gymraeg yn awgrymu bod bylchau yn parhau yn y sail dystiolaeth o ran buddiannau sgiliau dwyieithog yn y gweithle, ac yn enwedig y galw am sgiliau dwyieithog mewn sectorau penodol. Mae sail dystiolaeth gadarn yn ganolog i ddadlau'r achos dros fuddiannau dwyieithrwydd i fusnesau. Byddai ymchwil pellach yn fuddiol felly er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau hyn.
- Y bwch ymchwil mwyaf arwyddocaol a nodwyd, fodd bynnag, oedd diffyg dealltwriaeth fanwl o'r modd y gall newidiadau economaidd gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar lefelau bywiogrwydd ieithyddol (tt 7-10). Mae'r adroddiad yn trafod rhai o'r prif ffyrdd y gall newid economaidd a newidiadau o ran cyflogaeth effeithio ar fywiogrwydd iaith. At hynny, mae'n amlygu tueddiadau polisi cyfredol y mae angen eu hystyried ymhellach, megis: diffyg aliniad rhwng strategaethau i hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol a pholisïau datblygu economaidd eraill o du llywodraeth; diffyg cydlynu rhwng mentrau economaidd sydd wedi'u creu yn benodol i hyrwyddo iaith leiafrifol; a dulliau cyffredinol o gyflawni datblygiadau economaidd a gaiff eu mabwysiadu gan lywodraethau gwladwriaethol ac is-wladwriaethol, rhai sydd i'w gweld yn gynyddol llai ymatebol a sensitif

Adfywio: Adroddiad Briffio Gweithdy 3

i'w heffaith ar ymdrechion i adfywio iaith. O ganlyniad, mae angen clir am ymchwil pellach yn y maes hwn. Hefyd, mae angen dybryd i adnabod dulliau o weithio er mwyn sicrhau ystyriaeth well o fywiogrwydd ieithyddol fel rhan o'r broses o lunio polisiau economaidd, gan gynnwys defnydd mwy helaeth o waith integreiddio polisi yng ngwaith llywodraethau is-wladwriaethol.

- Y brif duedd a nodwyd o ran traweffaith anuniongyrchol newidiadau economaidd ar adfywio ieithoedd lleiafrifol yw'r effaith ar batrymau mudo, ac o ganlyniad, effaith patrymau newydd o gyflogaeth ar adfywio iaith (tt. 10-11). Roedd tystiolaeth a drafodwyd yn y gweithdy yn tanlinellu buddiannau economaidd mudo. Serch hynny, mae angen i fentrau polisi i hyrwyddo adfywio ieithyddol fod yn fwy ymatebol i'r cyd-destun hwn er mwyn ystyried effaith mudo ar brosesau polisi sy'n ceisio cryfhau'r broses o hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol, heb berygl o gynyddu'r lefel o gamwahaniaethu mae mudwyr yn ei hwynebu.

Adfywio Iaith a Thrawsnewid Economaidd

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r papur hwn yn adrodd ar y **trydydd gweithdy Adfywio, a gynhaliwyd yn Adeilad y Pierhead, Caerdydd ar 5 Hydref 2018**. Rhwydwaith ymchwil rhyngddisgyblaethol yw Adfywio, a gaiff ei ariannu gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (y Deyrnas Unedig), sydd â'r nod o astudio goblygiadau rhai o'r newidiadau cymdeithasol, economaidd, a gwleidyddol cyfoes a welir ar draws cymdeithasau gorllewinol i'n dealltwriaeth o'r modd y dylid llunio a gweithredu ymdrechion adfywio iaith. Mae'r rhwydwaith yn dwyn ynghyd grŵp rhyngwladol o ymchwilwyr academiaidd sy'n cwmpasu'r celfyddydau, y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol, ynghyd â nifer o ymarferwyr polisi blaenllaw. Caiff y rhwydwaith ei arwain gan Dr Huw Lewis (Prifysgol Aberystwyth), yr Athro Wilson McLeod (Prifysgol Caeredin) a Dr Elin Royles (Prifysgol Aberystwyth).
- 1.2 Teitl y trydydd gweithdy oedd '**Adfywio iaith a'r Economi**'. Yn anochel, mae trawsnewidiadau economaidd sy'n gysylltiedig â globaleiddio yn sail i nifer o dueddiadau cymdeithasol-ddemograffig a gaiff effaith uniongyrchol ar ymdrechion adfywio iaith. O ystyried pa mor ganolog yw'r cyswllt iaith-economi i waith hyrwyddo adfywio ieithyddol, canolbwyntiodd y seminar hon yn benodol ar y berthynas rhwng y ddwy. Er i'r seminar gydnabod yr arwyddocâd y mae llenyddiaeth academiaidd a pholisi sy'n ymwneud ag ieithoedd lleiafrifol yn ei briodoli i'r cyswllt rhwng iaith ac economi, nod y seminar oedd ceisio mynd i'r afael â'r duedd i'r materion hyn gael eu trafod mewn termau cymharol gyffredinol. Yn hytrach, ceisiodd y seminar wahaniaethu'n gliriach rhwng elfennau amrywiol y berthynas rhwng iaith ac economi. O ystyried y graddau y mae cyd-destun newid ar raddfa fyd-eang yn effeithio ar y berthynas hon, gallai datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r modd y gall newidynnau economaidd effeithio ar newidynnau ieithyddol yn ogystal ag i'r gwrthwyneb, fod o gryn fudd ymarferol i ddatblygiad mentrau adfywio iaith yn y dyfodol. Ar y sail hon, ceisiodd y seminar sicrhau eglurhad o ran agenda o gwestiynau er mwyn cynnal trafodaeth ehangach.
- 1.3 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r materion allweddol a godwyd mewn trafodaethau yn y gweithdai, ar sail wyth cyflwyniad a roddwyd yn ystod y dydd, ynghyd â'r cwestiynau a'r sylwadau a wnaed yn ystod y trafodaethau. Gwelir deunydd pellach o'r gweithdy, sef cyflwyniadau PowerPoint a chlipiau sain byr o'r cyfranwyr yn trafod eu cyflwyniadau ar wefan y prosiect: <http://revitalise.aber.ac.uk>. Mae copi o raglen y gweithdy ar ddiwedd yr adroddiad.
- 1.4 Mae'r adroddiad hwn wedi'i drefnu yn ôl themâu ac wedi'i strwythuro yn ôl dimensiynau gwahanol y berthynas rhwng iaith ac economi a godwyd yn ystod y gweithdy. Felly mae'r adrannau sy'n dilyn yn canolbwyntio ar y themâu canlynol
- Cysyniadoli dimensiynau gwahanol y cyswllt rhwng iaith ac economi
 - Traweffaith newidynnau iaith ar newidynnau economaidd
 - Traweffaith newidynnau economaidd ar fywiogrwydd iaith
 - Traweffaith anuniongyrchol trawsnewidiadau economaidd ar adfywio ieithoedd lleiafrifol

2. Cysyniadoli dimensiynau gwahanol y cyswllt rhwng iaith ac economi

2.1 Nod cyflwyniadau'r seminar oedd ceisio gwahaniaethu rhwng y dimensiynau gwahanol yn y berthynas rhwng iaith ac economi a bwrw goleuni pellach arnynt, gwelwyd hyn yn benodol yng nghyfraniadau François Grin, Michele Gazzola a Huw Lewis. Gallwn gyfeirio at dri dimensiwn i'r cyswllt rhwng iaith ac economi a'r rôl y gall economeg iaith ei chwarae ym maes polisi a chynllunio ieithyddol.

2.2 Iaith > Economi / Ilafur

Mae'r dimensiwn cyntaf yn gysylltiedig â'r modd y mae newidynnau iaith yn dylanwadu ar newidynnau economaidd. O ganlyniad, mae'r dimensiwn hwn yn cysylltu ag ymchwil ehangach i brif ieithoedd o safbwynt effaith nodweddion ieithyddol. Yng nghyd-destun ieithoedd lleiafrifol, gall y ffocws gwmpasu materion megis y modd y gall sgiliau iaith mewn marchnad lafur effeithio ar incwm unigolion a'u cyflogaeth, neu'r modd y gall sgiliau iaith ddylanwadu ar dueddiadau economaidd. O ganlyniad, mae'r dimensiwn hwn yn gweithredu ar lefelau micro a macro. Mae'r lefel micro yn ymwneud â dylanwad sgiliau iaith ar incwm a chyflogaeth unigolion, ac mae'r macro yn gysylltiedig ag effaith sgiliau iaith cymdeithas ar berfformiad economaidd cyffredinol fel lefelau masnach a lefelau Cynnyrch Mewnwladol Crynswth. O safbwynt ymarferol, gellid gweld hyn fel buddiannau economaidd gweithlu dwyieithog / gweithlu all weithio mewn iaith leiafrifol, neu effaith economaidd gymharol ar gwmnïau sy'n gweithredu mewn dwy iaith.

2.2 Economi > Iaith

Mae ail ddimensiwn yn ymwneud â'r modd y gall newidynnau economaidd ddylanwadu ar newidynnau ieithyddol. O'r persbectif hwn, mae'r ffocws ar ddylanwad uniongyrchol prosesau economaidd fel masnach, datblygiadau economaidd newydd mewn ardal, neu strategaethau cynllunio economaidd rhanbarthol ar fywiogrwydd iaith leiafrifol, yn enwedig niferoedd y siaradwyr neu lefelau defnydd. Yn aml, mae'n anodd gwerthuso effeithiau ieithyddol o'r fath, ac mae'n debygol y bydd y prif effeithiau ar lefelau bywiogrwydd ieithyddol i'w gweld amlycaf ar lefelau lleol iawn. Mae'n bwysig nodi bod y mathau o ddatblygiadau economaidd sydd o dan ystyriaeth yn rhai eang. Gallent gynnwys pedwar math o ddatblygiad:

- Mae categori un yn ddatblygiadau economaidd sy'n benodol gysylltiedig â diwydiannau a gweithgareddau sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag iaith leiafrifol a phan fo'r iaith o bosibl yn amod cyflogaeth. Ymhlith enghreifftiau'r categori hwn mae diwydiannau diwylliannol y mae eu cynnyrch ynghlwm ag iaith leiafrifol ac sy'n gweithredu mewn iaith leiafrifol.
- Mae categori dau yn ddatblygiadau lle nad yw ffocws y busnes yn ymwneud yn uniongyrchol â'r iaith leiafrifol ei hun. Serch hynny, gall gweithgaredd economaidd effeithio ar fywiogrwydd iaith leiafrifol, yn sgil penderfyniadau'n ymwneud â'r iaith/ieithoedd y bydd y busnes yn gweithredu ynddi/ynddynt a/neu'r iaith/ieithoedd y bydd y busnes yn darparu gwasanaethau drwyddynt. Enghraifft o ble y gall datblygiad hyrwyddo bywiogrwydd ieithyddol yn y categori hwn yw cwmni cyfreithiol yn gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng yr iaith leiafrifol ac sy'n darparu gwasanaethau drwy gyfrwng yr iaith honno.
- Mae categori tri yn ymwneud â datblygiadau economaidd mwy eu maint nad oes ganddynt gyswllt uniongyrchol ag iaith leiafrifol ond a all gael effaith uniongyrchol ar ei bywiogrwydd. Yn wahanol i gategori i) nid yw'r gwaith yn uniongyrchol

gysylltiedig ag iaith leiafrifol, ac yn wahanol i gategori ii) nid oes polisi iaith penodol na gweithgareddau ar waith yn y gweithle a all ddylanwadu ar fywiogrwydd ieithyddol. Serch hynny, gallai'r effaith ieithyddol fod o ganlyniad i effaith y datblygiad o ran cynnig swyddi mewn ardal ddaearyddol benodol (e.e. ardal o arwyddocâd ieithyddol gyda dwysedd uchel o siaradwyr yr iaith), neu mewn rhai mathau eraill o leoliadau o ganlyniad i gyflogi gweithlu mawr, lle ceir cynrychiolaeth uchel neu isel o siaradwyr iaith leiafrifol.

- Pedwerydd categori yw'r un lle caiff ffactorau effaith anuniongyrchol ar lefelau bywiogrwydd iaith. Gall prosesau a datblygiadau economaidd ysgogi prosesau unigol neu luosog yng nghyd-destun newid cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol sy'n gysylltiedig â globaleiddio sydd o ganlyniad yn effeithio ar fywiogrwydd iaith rhanbarthol a lleiafrifol. Y ffactor amlycaf mewn trafodaethau hyd yma yw effaith anuniongyrchol newidynnau economaidd ar fywiogrwydd ieithyddol o ganlyniad i hyrwyddo a hwyluso lefelau uwch o fudoledd a mudo (rhyng-genedlaethol neu ryngwladol, neu allfudiad). Trafodir yr elfen hon yn fanylach yn adran 5

Yn aml mae rhyngberthynas gref ac enghreifftiau o orgyffwrdd rhwng y dimensiynau a amlinellir yma yn adrannau 2.2 a 2.3 ac yn y modd y maent, o ganlyniad, yn effeithio ar fywiogrwydd ieithoedd lleiafrifol. Serch hynny, mae'r gwahaniaethu a nodir uchod yn ceisio diffinio'n fanwl ddimensiynau allweddol y berthynas rhwng iaith ac economi. Cwestiwn allweddol felly yw pa mor ddefnyddiol yw'r gwahaniaethu hwn? A yw'n fuddiol i bolisiau a chynllunio ieithyddol yng nghyd-destun ymarferol a pholisi o ystyried yr ymgais i wahaniaethu, mireinio ac egluro dimensiynau allweddol y berthynas rhwng iaith ac economi? Gellid rhoi sylw pellach i asesu ei werth a'i botensial wrth arwain at wahaniaethu gwell rhwng y modd y caiff polisiau eu chreu a'u gweithredu wrth iddynt effeithio ar y berthynas rhwng iaith ac economi.

2.4 Economeg iaith

Yn olaf, mae economeg iaith yn cwmpasu defnyddio teclynnau, cysyniadau a thechnegau modelu o faes economeg er mwyn dadansoddi materion sy'n ymwneud ag iaith. Mae hwn yn faes ymchwil sy'n tyfu ac mae'n cynnwys agweddau tebyg i asesu'r gwerth sy'n gysylltiedig ag ieithoedd bychain y gellid eu deall yn nhermau'r farchnad ac mewn cyd-destun nad yw'n ymwneud â'r farchnad. O ganlyniad, gall gwaith o'r fath arwain at ddiffinio buddiannau cymdeithasol yng nghyd-destun iaith leiafrifol; modelu i asesu cyfraniad ac effeithiolrwydd cymharol gwahanol ymyraethau i fywiogrwydd hirdymor iaith leiafrifol; a datblygu modelau ymddygiad er mwyn deall yn well y dewis a'r defnydd wneir o iaith. Fel y trafodwyd gan Grin a Gazzola yn ystod eu cyfraniadau, ystyrir mai cryfderau modelau o'r fath yw eu gallu i adnabod y cyfuniad o ffactorau a all effeithio ar y gyfran o siaradwyr iaith leiafrifol a bywiogrwydd hirdymor iaith. Felly, gall yr ymchwil hwn fod yn sail i ymyraethau polisi, fel polisiau sy'n ceisio dylanwadu ar ymddygiad iaith mewn teuluoedd dwyieithog/amlieithog a gwerthuso buddiannau, costau ac effeithiolrwydd cymharol yr ymyraethau polisi a chynllunio ieithyddol. Mae gwaith mewn economeg iaith yn gwahaniaethu rhwng gwerth defnydd a gwerth diffyg defnydd y mae unigolion yn ei briodoli i ieithoedd penodol mewn cyd-destunau lle nad yw'r gwerth o reidrwydd yn fesuradwy yn economaidd. Maent yn gwahaniaethu rhwng gwerthoedd awtosentrig ac ecosentrig, y gwerth y gall unigolion ei briodoli i iaith yn y presennol ac yn y dyfodol. Mae gwerth defnydd yn ymwneud â'r modd y mae unigolion yn priodoli gwerth diriaethol yn y presennol i'r iaith, er enghraifft eu gallu i ddarllen llyfr neu wyllo ffilm, a'r gwerth y gallent

ei briodoli i ddefnyddio'r iaith yn y dyfodol. Mae mesur gwerth diffyg defnydd yn tarddu o economeg amgylcheddol ac mae'n gysylltiedig ag unigolion yn teimlo perthynas â'r iaith ac yn gweld ei gwerth yng nghyd-destun ei chyfraniad at hunaniaeth neu etifeddiaeth ddiwylliannol. Fel arall, efallai nad ydynt yn defnyddio'r iaith, ond yn ystyried bod ei bywiogrwydd yn bwysig, neu'n priodoli gwerth rhagofalol i'r iaith, yn yr ystyr nad ydynt am iddi wynebu effaith andwyol gan y gallai fod yn werthfawr yn y dyfodol.

3. Traweffaith newidynnau iaith ar newidynnau economaidd

- 3.1 Yn ogystal â thrafod ymchwil economeg iaith sy'n cysylltu gwerth sgiliau dwyieithog â chynnydd mewn gwybodaeth, cynhyrchiant a chyfalaf cymdeithasol, trafododd y seminar ymchwil sy'n ceisio gwerthuso effaith economaidd ieithoedd lleiafrifol a'r rhwystrau sy'n effeithio ar ein dealltwriaeth o gyfraniad posibl ieithoedd lleiafrifol i fywiogrwydd economaidd.
- 3.2 Cyfeiriodd Iain Caimbeul at astudiaethau a gynhaliwyd yn yr Alban o ran y berthynas rhwng Gaeleg yr Alban a meysydd cyflogaeth gwahanol. Ymhlith y rhain, amlygodd un astudiaeth fod premiwm iaith yn nhermau cyflogaeth ac incwm yn ardal Inverness, hyd yn oed cyn cyflwyno Deddf Iaith Gaeleg yr Alban yn 2005. Ac eto, un rhybudd ynghlwm â'r ymchwil oedd y duedd yn yr Alban i gynnal rhai o'r astudiaethau at ddiben penodol, yn aml er mwyn dadlau'r achos dros arian cyhoeddus, ac felly awgrymir mai cyfyngedig yw nifer yr astudiaethau sy'n gyfan gwbl annibynnol. Gallai'r sylw hwn fod yn berthnasol ar lefel ehangach.
- 3.3 Cyflwynodd Mike Danson ymchwil sy'n cynnig gwaelodlin wrth werthuso a darparu tystiolaeth o'r defnydd a wneir ar hyn o bryd o Aeleg yr Alban a'i defnydd posibl fel ased i'r economi ac i gymdeithas Uwchdiroedd yr Alban a'r Ynysoedd, yn ogystal â'r Alban gyfan.¹ Roedd yr ymchwil yn cynnwys astudiaethau achos unigol a throsolwg sectorol o'r cyfryngau, cyhoeddi a thwristiaeth. Yn ei asesiad o werth economaidd posibl Gaeleg yr Alban i economi'r wlad, dadleuodd yr ymchwil y gallai gwerth posibl yr iaith fod rhwng £82 miliwn a £149 miliwn. Roedd y canfyddiad hwn yn seiliedig ar yr ymchwil a gynhaliwyd gyda sectorau allweddol y diwydiannau creadigol, twristiaeth a'r sector bwyd a diod, a defnydd data Cyfrifiad 2011 am sgiliau iaith Gaeleg yr Alban fel mesur dirprwyol i amcangyfrif pwysau a graddfa bosibl gwerth yr iaith.
- 3.4 Yn ôl Danson, dadleuodd yr ymchwil y gallai gwerth iaith ranbarthol a lleiafrifol ymddangos ar sawl ffurf. Yn y sector twristiaeth, yn ogystal â gweld bod Gaeleg yr Alban yn ffordd o gyfoethogi apêl unigryw'r Alban, roedd tystiolaeth bod galw hefyd am gyfleoedd i ddysgu a siarad yr iaith. Yn fwy na hynny, roedd tystiolaeth bod Gaeleg yr Alban yn allweddol o ran hyrwyddo marchnad ryngwladol rhai o'i chynnyrch. Mewn achosion tebyg i gwmi wisgi lle caiff 70% o'i gynnyrch ei allforio, defnyddir Gaeleg ar y labeli ac mae'n chwarae rhan wrth hyrwyddo'r busnes (er enghraifft cyfarchion ar y wefan, ar frig llythyron ac mewn e-byst). Mae'r cwmni o'r farn bod Gaeleg wedi cyfrannu at oddeutu un rhan o bump o drosiant y busnes ac mae wedi hwyluso creu marchnad 'niche' gan gyfoethogi tarddiad a dilysrwydd y cynnyrch yn rhyngwladol.

¹ Mae deunyddiau sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn ar gael o: <http://www.hie.co.uk/community-support/support-for-gaelic-development/gaelic-research.html>

- 3.5 Mae'r pwyntiau uchod gan Danson ynghylch y modd y gall defnyddio iaith leiafrifol gynorthwyo wrth hyrwyddo rhai mathau o gynnyrch yn rhyngwladol wedi'u trafod ar lefel fwy cyffredinol fel rhan o'r cyflwyniad gan Finbarr Bradley. Yn ôl Bradley, mae syniadau fel dilysrwydd, ymdeimlad o le a gwreiddiau yn fwyfwy arwyddocaol ym myd marchnata. Wrth hyrwyddo cynnyrch mewn economi fyd-eang, mae cwmnïau yn chwilio'n gynyddol i gyflwyno'u hunain fel cwmni o gymeriad neu hunaniaeth amlwg sy'n glynu at werthoedd eglur. Yn y cyd-destun hwn, dadleuodd Bradley, gan gyfeirio at enghreifftiau o Gymru, Iwerddon a'r Alban, fod cyfle i drafod gwerth economaidd cwmnïau sy'n defnyddio ieithoedd lleiafrifol mewn modd llawer mwy cadarnhaol.
- 3.6 Yng Nghymru, mae cyfeiriadau at fuddiannau'r Gymraeg i fusnesau wedi'u gweld mewn amryw o strategaethau iaith. Serch hynny, awgrymodd Heledd Bebb fod angen gwneud llawer iawn mwy o waith i fraenaru'r tir er mwyn ymateb yn llawn i'r her a osodwyd gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru yn ei adroddiad yn 2014.² Roedd argymhellion a amlinellwyd gan y grŵp hwn yn cynnwys datblygu sail dystiolaeth ehangach er mwyn argyhoeddi busnesau o fuddiannau gweithredu'n ddwyieithog. Ar y sail honno, argymhellodd y grŵp y dylid llunio strategaeth i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel teclyn marchnata a hyrwyddo'r buddiannau y gall dwyieithrwydd eu cyflwyno i fusnesau. Mae gwaith ymchwil sydd wedi'i gomisiynu'n ddiweddar, a gynhaliwyd gan Bebb, ynghyd â chydweithwyr eraill, yn amlygu ystod o fylchau sy'n parhau yn y maes hwn, gan gynnwys:
- Ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc yn y sector AB o fuddiannau cyffredinol sgiliau dwyieithog yn y gweithle yng Nghymru. Serch hynny, roedd ganddynt ddiffyg hyder yn eu sgiliau eu hunain, ac roedd amrywiadau cryf (yn enwedig fesul sector ac yn ddaearyddol) yn eu canfyddiadau o fuddiannau sgiliau dwyieithog.
 - Roedd pobl ifanc oed ysgol ac mewn addysg uwch yn dymuno gweld tystiolaeth gryfach gan amrywiaeth o gyflogwyr ynghylch pwysigrwydd sgiliau dwyieithog ar gyfer sectorau gwaith gwahanol yng Nghymru.
 - Er gwaethaf Mesur y Gymraeg 2011, amlygodd adolygiad fod nifer y swyddi ar draws y sector cyhoeddus wedi'u categoreiddio fel 'sgiliau Cymraeg yn hanfodol' yn isel iawn - dim ond 2% o swyddi'r sector cyhoeddus. Mae'r ganran isel hon yn codi cwestiynau o ystyried mai'r dybiaeth gyffredin oedd y byddai gofynion o'r fath gryn dipyn yn uwch yn y sector gyhoeddus o'i gymharu â'r sector breifat.

Cyfeiriodd Wynfford James hefyd at y bylchau yn y data a allai fod yn sail i waith llunio polisi, gan gynnwys deall lefelau presennol sgiliau iaith mewn sectorau penodol a'r galw am sgiliau dwyieithog mewn sectorau gwahanol.

4. Traweffaith newidynnau economaidd ar fywiogrwydd iaith

- 4.1 Er bod cydnabyddiaeth gref a helaeth o bwysigrwydd economi hyfyw i adfywio iaith, gwelwyd prinder gwaith ymchwil cynhwysfawr a manwl i geisio deall sut a phryd y bydd prosesau neu newidynnau economaidd yn effeithio un ai'n gadarnhaol neu mewn modd negyddol ar lefelau bywiogrwydd ieithyddol. Yr hyn sydd o arwyddocâd penodol yw'r hyn

² Llywodraeth Cymru (2014). *Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygiad Economaidd* (nid yw hyn bellach ar gael ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru).

a ystyrir fel diffyg sylw manwl i oblygiadau newidiadau i'r economi a'i strwythurau ac mewn patrymau cyflogaeth ar gyfer bywiogrwydd iaith ac ymdrechion adfywio iaith.

- 4.2 Man cychwyn eglur yw nodi sut y gall newidiadau i'r economi ac i gyflogaeth effeithio ar bywiogrwydd iaith. Roedd cyfraniadau i drafodaethau seminar gan Huw Lewis, Ben Ó Ceallaigh, a Wynfford James yn amlygu elfennau allweddol gan gynnwys:
- Mae'n gyffredin i drafodaethau ynghylch adfywio iaith bwysleisio'r angen i'r iaith leiafrifol fod ag elfen o werth economaidd, er enghraifft drwy gael ei defnyddio mewn rhai cyd-destunau fel iaith gwaith. Mae newidiadau mewn sectorau fel amaeth, neu yn niwydiannau'r gorffennol (yng Nghymru) fel y diwydiant glo, yn effeithio ar y cyfrannau o bobl sy'n defnyddio iaith leiafrifol fel iaith gwaith;
 - Yn yr un modd, gall newidiadau yn yr economi, neu sectorau economaidd penodol, effeithio ar strwythurau cymdeithasol a dylanwadu ar i) lefelau ymwneud sifig a'r graddau y mae gan unigolion y gallu i gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo adfywio ieithyddol, a ii) lefelau'r defnydd o iaith gymdeithasol y tu allan i gyflogaeth (e.e. gyda ffrindiau, rhwydweithiau cymdeithasol ac ati).
- 4.3 Roedd y cyfraniad gan Mike Danson hefyd yn dangos rhai o'r ffyrdd y gall newidiadau economaidd strwythurol effeithio ar fywiogrwydd ieithyddol. Cyfeiriodd at enghreifftiau lle gwelwyd yr economi fel elfen bwysig i ddatblygu a hyrwyddo Gaeleg yr Alban. Fel rhan o hyn, roedd cred gynyddol ymhlith rhai mentrau a sefydliadau fod gan eu defnydd o'r iaith, a'u dulliau normaleiddio yn y gweithle, y potensial i gyfrannu mewn modd cadarnhaol i'r broses normaleiddio ehangach ym maes addysg ac yn gymdeithasol. Ar lefel ficro, mae enghraifft dda o hyn i'w gweld gyda chwmni wisgi, *Praban na Linne*. Defnyddir Gaeleg wrth gyfathrebu'n allanol gyda chwmnïau neu sefydliadau lleol; mae staff yn ceisio siarad yr iaith yn y gwaith ac yn ei gweld fel elfen graidd o'r busnes yn yr ardal. Roedd y gwaith ymchwil hefyd yn dangos bod y cwmni o'r farn bod ei ddefnydd o'r iaith wedi cyfoethogi'r gydnabyddiaeth a'r defnydd o'r iaith yn yr ardal leol.
- 4.4 Amlygodd y cyfranwyr rai o'r heriau sy'n codi wrth ystyried y berthynas rhwng datblygu economaidd ac adfywio iaith. Yn eu plith mae'r angen i asesu i ba raddau mae nodau ac arferion strategaethau cyffredinol llywodraethau, yn enwedig datblygu economaidd a strategaethau cynllunio rhanbarthol, yn cydblethu â'r nodau sydd i'w gweld mewn strategaethau sy'n anelu at hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol.
- 4.5 Yng nghyd-destun Cymru, caiff strategaethau economaidd eu hystyried yn ganolog i ymdrechion hirdymor i hyrwyddo'r Gymraeg. Ac eto, er gwaethaf hyn, yn ôl Wynfford James, mae ymgyrchwyr, cynllunwyr ieithyddol ac ymarferwyr polisi eraill wedi esgeuluso'r rhyng-berthynas hon. O ganlyniad, yn aml, mae diffyg rhyng-gysylltu rhwng strategaethau economaidd y llywodraeth a strategaethau i hyrwyddo'r Gymraeg. Un enghraifft a nodwyd oedd y gwaith diweddar ar fentrau dinas-ranbarth yng Nghymru lle cafwyd braidd dim ystyriaeth o gwbl i'r goblygiadau posibl o ran y Gymraeg, gan gynnwys yr achosion hynny lle roedd y rhanbarth dan sylw yn cwmpasu neu'n gorgyffwrdd ag ardaloedd â lefelau uchel o siaradwyr Cymraeg. O ganlyniad, nid oes yr un cyfeiriad at ddatblygu sgiliau dwyieithog yn y Fargen Dinas-Ranbarth Abertawe a Bargaen Twf Canolbarth Cymru. Gellid rhoi sylw pellach i'r graddau y caiff ystyriaeth i'r Gymraeg ei hintegreiddio i'r strategaethau sectorol perthnasol.

- 4.6 Yn gyffredinol, un o'r prif heriau yw cynllunio strategaethau a pholisïau economaidd sy'n cydnabod ac yn ystyried eu dylanwad ar gynaliadwyedd y Gymraeg. Er bod ewyllys gwleidyddol o bosibl yn cefnogi datblygiadau 'r fath, un o'r prif ffactorau a nodwyd fel un a oedd yn llesteirio cynnydd yn y maes hwn oedd diffyg dealltwriaeth a sensitifrwydd i faterion ieithyddol ar lefel rheolwyr mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru ac roedd hyn yn arwain at angen am hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ymhlith y garfan hon o arweinwyr yng Nghymru. Gallai'r pwynt hwn fod yn berthnasol mewn llawer o achosion eraill.
- 4.7 Ail her yw diffyg cydlynw rhwng y mentrau datblygu economaidd hynny sydd wedi'u creu yn benodol i hyrwyddo a chefnogi iaith leiafrifol. O ran Cymru, roedd James yn cydnabod bod nifer o raglenni a chynlluniau wedi'u datblygu yn benodol i hyrwyddo'r Gymraeg yn y maes economaidd (disgrifiad bras). Galwodd am gynllun gweithredu clir i fynd i'r afael â'r diffyg cyswllt rhwng mentrau o'r fath ac i geisio'u hintegreiddio â strategaethau mewn meysydd polisi eraill sy'n effeithio ar fywiogrwydd ieithyddol.
- 4.8 Roedd cyfranwyr y gweithdai hefyd yn pwysleisio bod lleoliad yn bwysig o ran effaith datblygiadau ar fywiogrwydd ieithyddol. Nid yw cyfleoedd cyflogaeth sydd â chyswllt cryf ag iaith leiafrifol bob amser wedi'u lleoli mewn ardaloedd sy'n gadarnleoedd i'r iaith, gyda dwysedd uchel o siaradwyr ond lle mae'r iaith ar drai. Cyfeiriodd Danson at y modd y mae swyddi diwydiant creadigol Gaeleg yr Alban wedi'u lleoli yn Glasgow a hynny'n ddealladwy oherwydd yr angen iddynt fod yn agos i'r sector. Mae'r achos hwn yn enghraifft o gyfleoedd cyflogaeth sy'n gofyn am sgiliau iaith leiafrifol ond nad ydynt wedi'u lleoli mewn ardaloedd sy'n gadarnleoedd i'r iaith a lle ceir dwysedd uchel (er yn lleihau) o siaradwyr. O ganlyniad, gall datblygiadau o'r fath mewn sector gael effeithiau negyddol ar waith hyrwyddo iaith mewn ardaloedd 'craidd'.
- 4.9 Cyfeiriodd James at ddatblygiad cyferbyniol yn y cyd-destun hwn sef adleoli pencadlys sianel Gymraeg S4C o Gaerdydd i Gaerfyrddin. Nod strategol y datblygiad hwn oedd hyrwyddo bywiogrwydd ieithyddol drwy gynyddu cyfleoedd gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal Caerfyrddin a sicrhau traweffaith ehangach yn yr ardal o safbwynt defnydd iaith ac agweddau tuag at yr iaith. O ystyried potensial datblygiadau o'r math hwn, galwodd am werthusiad manwl ac asesiadau o effaith yr adleoli ar fywiogrwydd ieithyddol y rhanbarth. Cynigiodd y dylid ailystyried argymhelliad a wnaed gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru i hyrwyddo datblygiad Bangor ac Aberystwyth (trefi sydd hefyd wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle ceir cyfran gymharol uchel o siaradwyr Cymraeg) fel canolbwynt i ddinas-ranbarthau sy'n pwysleisio'r Gymraeg fel ased hanfodol i ffyniant economaidd yr ardal.
- 4.6 Pwynt ehangach a ddaeth i'r amlwg yn ystod y gweithdy oedd y duedd ymddangosiadol i arferion a modelau datblygu economaidd fod yn gynyddol llai sensitif i sefyllfa ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol. Yn yr Alban, mae gan Fenter yr Uwchdiroedd a'r Ynysoedd (Bwrdd Datblygu'r Uwchdiroedd a'r Ynysoedd gynt), yr asiantaeth datblygu ar gyfer gogledd yr Alban, gylch gwaith cymdeithasol, ac mae hyn wedi arwain at rywfaint o sensitifrwydd tuag at draweffaith mentrau ar Aeleg yr Alban. Yng Nghymru, roedd gan Fwrdd Datblygu Cymru Wledig gylch gwaith cymdeithasol, ond nid oedd hyn yn wir yn achos Asiantaeth Datblygu Cymru a ymgorfforodd y Bwrdd yn 1998. Ac eto, yn ddiweddar, mae datblygiad y fargen dinas-ranbarth wedi bod yn amlwg ledled gwledydd

Prydain ac mae hyn wedi cyd-daro â thuedd yn yr Alban ac yng Nghymru i dalu llai o sylw i ardaloedd gwledig. Felly, mae hyn yn awgrymu bod economeg cydgrynhoed yn tueddu i fod yn drech nag ystyriaethau eraill, ac o ganlyniad yn cynyddu'r risg i ieithoedd lleiafrifol gael eu hanwybyddu mewn prosesau o ddatblygu cynigion i sicrhau twf economaidd drwy gyfrwng strategaethau clystyru sy'n canolbwyntio ar ardaloedd trefol mwy.

- 4.7 Yn ei waith ar Iwerddon, amlygodd Ben Ó Ceallaigh oblygiadau dwy duedd yn y maes cynllunio economaidd ar gyfer adfywio iaith. Yn gyntaf, mae'r prif fodel o ddatblygiad economaidd a fabwysiadwyd ar gyfer y Gaeltacht mewn degawdau diweddar yn gyfuniad o grantiau arbennig a chymhellion eraill i ddenu buddsoddwyr o dramor i leoliad ymylol, llai atyniadol. O ganlyniad, mae wedi creu tuedd gref i gyfleoedd cyflogaeth fod wedi'u crynhoi mewn swyddi sy'n fregus, nad oes bri yn perthyn iddynt, ac sydd â chyflogau isel, ac felly mae hyn yn golygu nad ydynt yn gynaliadwy, yn enwedig gan nad oes gan fuddsoddwyr allanol ymrwymiad hirdymor i'r ardal.
- 4.8 Yn ail, trafododd Ó Ceallaigh y llu o effeithiau a gaiff llymder economaidd a gostyngiad mewn arian cyhoeddus ar y Wyddeleg. Er bod rhai wedi dadlau ei bod hi'n anodd gwerthuso'n llawn i ba raddau mae'r argyfwng economaidd sydd wedi effeithio ar wasanaethau cyhoeddus yn Iwerddon, wedi effeithio ar y Wyddeleg, awgrymodd Ó Ceallaigh i'r effaith ar y Wyddeleg fod yn un anghymesur. O ganlyniad, mewn sefyllfa a gaiff ei gweld fel cam neo-ryddfrydol o dorri yn ôl ar ymyrraeth y wladwriaeth, cafwyd effaith uniongyrchol ar y ddau bolisi pwysicaf a oedd yn cyd-daro â chyfnod o lymder economaidd: strategaeth 20 mlynedd y Wyddeleg ar gyfer 2010-2030, a Deddf y Gaeltacht 2012. Gwelwyd y strategaeth fel rhywbeth nas cyflawnwyd ac a anwybyddwyd, a'r llywodraeth yn gwrthod ymwneud â gwelliannau arfaethedig i'r Ddeddf. Y ddadl oedd bod agweddau gwleidyddol negyddol tuag at y Wyddeleg wedi manteisio ar y sefyllfa economaidd a chanlyniadau hynny i arian cyhoeddus er mwyn lleihau ymrwymiad y wladwriaeth. Roedd hyn i'w weld amlycaf yn y toriadau sylweddol a wnaed i gyllideb gyfalaf y Gaeltacht rhwng 2008 a 2017, gan gynnwys ar gyfer Údarás na Gaeltachta (awdurdod datblygu'r Gaeltacht). Roedd tueddiadau o'r fath yn parhau gyda'r gwariant arfaethedig ar gyfer 2018-2027 dim ond ychydig yn fwy na hanner gwariant 2006-2018. Dadleuwyd bod cyfuniad o gyflogaeth gymharol fregus yn y Gaeltacht oherwydd dibyniaeth sylweddol ar swyddi Buddsoddiad Uniongyrchol o Dramor, a'r lleihad sylweddol mewn arian gan y llywodraeth wedi creu risgiau difrifol i sefyllfa'r Wyddeleg.
- 4.9 Yn olaf, roedd rhywfaint o drafodaeth ar effaith Brexit ar adfywio ieithoedd ar draws y Deyrnas Gyfunol. Fel rhan o oblygiadau pellgyrhaeddol Brexit a chan adlewyrchu'r ymchwil ar effaith llymder economaidd yn Iwerddon, y farn gyffredinol oedd mai ei brif effaith economaidd fyddai lleihad yn nhwf Cynnyrch Mewnwladol Crynswth, gyda lleihad yn sgil hynny, yn swm yr arian cyhoeddus fyddai ar gael i gefnogi gwasanaethau dwyieithog a mentrau adfywio iaith. Yn unol ag adran 5 isod, gwelwyd bod Brexit hefyd yr un mor debygol o effeithio ar ddemograffeg yng Nghymru, gan arwain at leihad posibl yn lefel y mudo rhyngwladol a chynnydd yn y mudo oddi mewn i wledydd Prydain. Awgrymwyd y gallai hyn arwain at ganlyniadau cymysg i gynllunio ieithyddol. Ar y naill law, gallai leihau'r angen i ystyried ymatebion polisi wedi'u teilwra i fudo rhyngwladol. Ar y llaw arall, gallai gynyddu ymhellach yr angen i ddatblygu polisiâu sy'n ymateb i lefelau uwch posibl o fudo mewnol, yn ogystal â'r angen i deilwra polisiâu yn unol â dwysedd siaradwyr yn yr ardaloedd hynny yng Nghymru sy'n profi lefelau uwch o fudo.

5. Traweffaith anuniongyrchol trawsnewidiadau economaidd ar adfywio ieithoedd lleiafrifol

- 5.1 Maes arall sy'n ffurfio rhan o'r berthynas gymhleth rhwng newidiadau economaidd ac adfywio iaith leiafrifol yw effaith yr economi ar ffurfiau eraill o drawsnewid cymdeithasol a'r effaith o ganlyniad ar fywiogrwydd ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol. Y brif duedd a amlygwyd yn ystod y seminar oedd effaith newidiadau economaidd ar batrymau mudo a'r goblygiadau dilynol o ran patrymau cyflogaeth ar gyfer bywiogrwydd ieithyddol. Yr awgrym oedd nad yw nifer o'r heriau hyn sy'n effeithio ar adfywio iaith wedi'u hateb yn ddigonol eto.
- 5.2 Fel y trafodwyd yn y gweithdy Adfywio cyntaf, mae mudo i ardaloedd gwledig ac anghysbell yn chwarae rhan gynyddol bwysig mewn marchnadoedd llafur oherwydd ei fod yn cyfrannu at gynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus a phreifat, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, ac yn mynd i'r afael â'r angen i ateb diffyg sgiliau a llafur. Mae mudo yn ymateb i dueddiadau dad-boblogi mewn ardaloedd gwledig / ymylol a dirywiad mewn poblogaeth sy'n effeithio ar y ddemograffeg mewn ardaloedd penodol. Gellid ystyried ardaloedd o'r fath fel cadarnleoedd iaith leiafrifol pan nad oes pryderon bod yr iaith yn wynebu dirywiad. Serch hynny, mewn achosion a drafodwyd gan Mike Danson, nid oedd yn glir bod cyfleoedd digonol i fudwyr ddysgu ieithoedd lleiafrifol, ac felly'n effeithio ar y mudwyr a'u traweffaith posibl hwythau ar adfywio iaith.³
- 5.3 Roedd gwaith Mike Danson yn Ynysoedd y Ffaröe yn tanlinellu rhai o'r prif heriau oedd yn codi o dueddiadau deuol sy'n deillio o fudo i ardaloedd gwledig/ymylol a ffemineiddio'r gweithlu. Er bod y gallu i siarad Ffaröeg yn ofniad i swyddi sector cyhoeddus roedd y cyfleusterau ar gyfer dysgu'r iaith yn gyfyngedig. O ganlyniad, roedd menywod oedd wedi mudo yn tueddu i weithio mewn swyddi sgiliau isel mewn sectorau fel prosesu bwyd, ac roedd y ffaith nad oeddent yn gallu siarad Ffaröeg yn golygu nad oeddent yn gallu mynd i swyddi â chyflog uwch.
- 5.4 Yn yr un modd ar gyfer Iwerddon, mae'r strategaeth ugain mlynedd ar gyfer y Wyddeleg, 2010 -2030, yn cydnabod pwysigrwydd gweithgaredd economaidd i'r iaith ac yn argymhell cyfres o fentrau i annog entrepreneuriaeth a gweithgaredd economaidd ymhlith cymunedau siaradwyr y Wyddeleg ar lefel cwmni, sector neu ar lefel leol. Serch hynny, yr awgrym oedd bod nifer y sectorau a nodwyd lle gallai'r Wyddeleg fod yn ased yn cyfateb i'r enghreifftiau hynny o sectorau sydd â chyfran uchel o fudwyr yn y gweithlu, sy'n arwain at wrthdaro rhwng potensial y farchnad lafur i hybu adfywiad ieithyddol a'r capasiti i siarad yr iaith.
- 5.5 Amlygodd gwaith Mike Danson ar yr Alban sefyllfa debyg, a allai fod yn fwy dwys o bosibl o safbwynt polisïau i hybu Gaeleg yr Alban yn yr ystyr bod ganddynt ganlyniadau nas bwriadwyd o gyfrannu at brosesau sy'n gwahaniaethu yn erbyn gweithwyr sydd wedi mudo. Mae mewnudwyr i'r Alban wedi tueddu i fod yn garfan sydd wedi'i thangyflogi o ganlyniad i'r ffaith nad ydynt yn rhoi eu sgiliau a'u profiadau proffesiynol ar waith oherwydd eu bod yn gweithio yn y sectorau economaidd mwyaf hyblyg, llafurddwys, heb fawr o ragolygon i'w gyrfaoedd. Dangosodd gwaith ymchwil fod diffyg sgiliau Saesneg ac ymwybyddiaeth gyfyngedig o allueddau perthnasol yn llesteirio cyfleoedd i ddatblygu,

³ Gweler Adroddiad Briffio Gweithdy 1: Adfywio iaith, Mudoedd a Thrawsnewid Cymunedol. Ar gael ar-lein: <http://revitalise.aber.ac.uk/en/media/non-au/revitalise/Adfywio---Adroddiad-Gweithdy-1.pdf>

gan hwyluso camwahanïaethu ac ecsploetio, yn enwedig mewn cymunedau mawr. Mae diffyg amser (yn aml yn sgil amodau cyflogaeth) yn golygu nad oes gan unigolion sydd efallai'n meddu ar sgiliau ieithoedd eraill yn barod, ac o'r herwydd yn ei chael hi'n haws i ddysgu ieithoedd ychwanegol, yr amser i ddysgu iaith. Mae'r mewnfudo hwn yn cynnig potensial i ychwanegu gwerth at economi'r Alban yn yr ardaloedd lle siaredir Gaeleg ac i wyrddroi'r lleihad yn y boblogaeth. Serch hynny, efallai fod goblygiadau nas bwriedir ynghlwm ag agweddau strategol i gryfhau cymunedau drwy hyrwyddo Gaeleg yr Alban, heb ddatblygu ffyrdd strategol o gynnwys mewnfudwyr yn y mentrau hyn.

- 5.5 Ar y cyfan, mae angen sylw pellach a chydabyddiaeth i ddeall a gwerthuso effeithiau anuniongyrchol datblygiadau economaidd ar ymdrechion i adfywio iaith, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â mudo. Dylai tystiolaeth o'r fath hefyd gynnig sylfaen i ddatblygu ymyraethau polisi iaith mwy ymatebol i'r cyd-destun, er mwyn sicrhau bod prosesau o'r fath yn cydblethu â thueddiadau mudo, yn hytrach na gwrthdaro â thueddiadau o'r fath er mwyn cryfhau gwaith i hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol.

Gweithdy 3: Adfywio iaith a thrawsnewid economaidd

Dyddiad: Dydd Gwener, 5 Hydref 2018

Lleoliad: Canolfan y Pierhead, Bae Caerdydd

9.45 Croeso a chyflwyniad, Huw Lewis, Prifysgol Aberystwyth

10.00 Sesiwn 1: Iaith a'r economi: mapio'r maes

François Grin, Cyfadran Cyfieithu a Dehongli Observatoire ÉLF, Prifysgol Geneva
Persbectifau economaidd ar ieithoedd "bychain": egwyddorion, tueddiadau diweddar a heriau newydd

Michele Gazzola, Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol a Pholisi Cymwysedig, Prifysgol Ulster
Ieithoedd lleiafrifol mewn persbectif economaidd

11.15 Toriad: te/coffi

11.45 Sesiwn 2: Newid economaidd ac ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol

Mike Danson, Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Heriot-Watt
Gaelic, Gaeilge a føyroyskt mál: ieithoedd lleiafrifol fel asedau economaidd?

Ben Ó Ceallaigh, Astudiaethau Celtaidd ac Albanaidd, Prifysgol Caeredin
Tensiynau rhwng adfywio iaith a neo-ryddfrydiaeth: gwersi o Iwerddon 2008-18.

13.00 Cinio

14.00 Sesiwn 3: 'Yr hyn a wyddom, a'r hyn nas gwyddom': strategaethau adfywio iaith a materion economaidd

Trafodaethau panel gyda chyfraniadau gan:

- Wynfford James, Sgema
- Iain Caimbeul, Prifysgol Uwchdiroedd ac Ynysoedd yr Alban
- Heledd Bebb, Ymchwil OB3

3.15 Toriad: te/coffi

3.30 Sesiwn 4: Adfywio ieithyddol ac economaidd

Finbarr Bradley, Ysgol Fusnes Smurfit, Coleg Prifysgol Dilyn.
Yr Economi Adfywiol: Gwendid iaith fel Cryfder

4.30 Sylwadau i gloi